



**Y WERIN**  
CRONFA DREFTADAETH  
LEGACY FUND  
Ymddiriedolaeth Gwaddol Cyfyngedig PC  
The UW Restricted Endowment Trust

## Gwobr John Maclean

*Gwaddolwyd y Wobr ym mis Rhagfyr 1923, gan yr Athro Syr Ewen J Maclean MD, er cof am ei dad, y diweddar John Maclean, Kilmoluag, Tiree, a Mount Hill, Caerfyrddin. Medal yw'r wobr.<sup>1</sup>*

1. Dyfernir y Wobr bob blwyddyn, os ceir teilyngdod, i'r ymgeisydd am radd Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth, sydd, ar ôl dilyn yn Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, y cwrs astudio mewn Bydwreigiaeth a Gynaecoleg a gymeradwywyd yn rhan o'r cynllun cymhwysio ar gyfer y graddau hynny ac ar ôl bodloni'r arholwyr yn y pwnc yn yr arholiad a gynhaliwyd gan y Brifysgol, ym marn UWRET, wedi amlygu'r medr gorau ynddo.
2. Wrth ddyfarnu, bydd UWRET yn cymryd i ystyriaeth adroddiad yr arholwr allanol ar gyraeddiadau'r ymgeiswyr yn yr arholiad ac adroddiad gan yr Athro Obstetreg a Gynaecoleg ar waith yr ymgeiswyr yn ystod eu cyfnod yn astudio'r pwnc.
3. Os na fydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi cwblhau'r cymhwyster ar gyfer graddau Baglor mewn Meddygaeth a Baglor mewn Llawfeddygaeth, caiff cyhoeddiad a chyflwyniad y Wobr eu gohirio nes bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'r cymhwyster.

---

Ffurfir y rheoliadau hyn ar sail y gymynrodd wreiddiol. Wrth wneud dyfarniad, gall yr Ymddiriedolwyr ddefnyddio eu doethineb a dehongli'r gymynrodd ar gyfer yr oes fodern.

1. Dyfernir swm o arian parod yn lle medal erbyn hyn, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael